



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Asesiadau o'r Effaith ar Dreftadaeth yng Nghymru

RHEOLI

Mai 2017

 Cadw

Datganiad o Ddiben

Mae *Asesiadau o'r Effaith ar Dreftadaeth yng Nghymru* yn nodi'r egwyddorion cyffredinol i'w hystyried wrth gynllunio newidiadau i asedau hanesyddol a gwneud cais am gydsyniad adeilad rhestredig, cydsyniad ardal gadwraeth a chydsyniad heneb gofrestredig.

Mae'r ddogfen ganllaw arfer gorau hon wedi'i hanelu'n bennaf at berchenogion, deiliaid ac asiantau asedau hanesyddol er mwyn eu helpu i ddeall pam, pryd a sut i ddefnyddio proses asesu'r effaith ar dreftadaeth ac ysgrifennu datganiadau o'r effaith ar dreftadaeth. Dylai hefyd eu helpu i ystyried *Egwyddorion Cadwraeth ar gyfer Rheoli Amgylchedd Hanesyddol Cymru mewn Ffordd Gynaliadwy* (*Egwyddorion Cadwraeth*) Cadw¹ er mwyn cyflawni newid sensitif o ansawdd uchel, gan ddefnyddio egwyddorion dylunio da.²

Dylai awdurdodau sy'n gwneud penderfyniadau hefyd ddefnyddio'r canllawiau hyn ochr yn ochr â *Pholisi Cynllunio Cymru*,³ *Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol*⁴ a'r *Egwyddorion Cadwraeth* i lywio eu polisiau eu hunain ac wrth ystyried ceisiadau unigol am ganiatâd cynllunio a chydsyniad adeilad rhestredig, cydsyniad ardal gadwraeth a chydsyniad heneb gofrestredig, gan gynnwys trafodaethau cyn ymgeisio.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru
Y Gwasanaeth Amgylchedd Hanesyddol (Cadw)
Plas Caeriw
Uned 5/7 Cefn Coed
Parc Nantgarw
Caerdydd CF15 7QQ
Ffôn: 03000 256000
E-bost: cadw@cymru.gsi.gov.uk

Cyhoeddwyd gyntaf gan Cadw yn 2017
Digidol ISBN 978 1 4734 8703 1

OGL © Hawlfraint y Goron 2017, Llywodraeth Cymru, Cadw, ac eithrio lle y'i nodir. WG26917

Cadw yw gwasanaeth amgylchedd hanesyddol Llywodraeth Cymru, yn gweithio i sicrhau amgylchedd hanesyddol hygyrch a ddiogelir yn dda i Gymru.

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

Llun y clawr: Mae Bwthyn Penrhos yn adeilad rhestredig gradd II ac yn enghraifft arbennig o ffermdy bach hirgul traddodiadol sydd wedi cadw llawer o'i nodweddion gwreiddiol ac a adeiladwyd drwy lechfeddiannu tir comin. Ychwanegwyd estyniad sy'n parchu cymeriad a lleoliad yr adeilad gwreiddiol (© Maredudd ap Iestyn, Pensaer).

Cynnwys

Ffeithiau Cyflym

Cyflwyniad

1 Beth yw Aseiad o'r Effaith ar Dreftadaeth?

2 Pryd mae angen cynnal Aseiad o'r Effaith ar Dreftadaeth?

2.1 Paratoi Cynigion

2.2 Cydsyniad Adeilad Rhestredig, Cydsyniad Ardal Gadwraeth a Chydsyniad Heneb Gofrestredig

2.3 Caniatâd Cynllunio

3 Yr Hyn y Dylech ei Gynnwys yn eich Aseiad o'r Effaith ar Dreftadaeth

4 Proses Asesu'r Effaith ar Dreftadaeth

4.1 Esbonio eich Amcan

4.2 Deall Arwyddocâd

4.3 Nodi Newidiadau Arfaethedig

4.4 Asesu Effaith eich Cynigion

4.5 Dod o Hyd i'r Ateb Gorau

5 Gwrthbwysio

6 Datganiad Mynediad

7 Cyflwyno eich Datganiad o'r Effaith ar Dreftadaeth

7.1 Cydsyniad Adeilad Rhestredig

7.2 Cydsyniad Ardal Gadwraeth

Atodiad

Datganiadau o'r Effaith ar Dreftadaeth Cryno Enghreifftiol

Cyfeiriadau

Rhagor o Wybodaeth

Cysylltiadau

Ffeithiau Cyflym ↗

- 1** Gall asesu'r effaith ar dreftadaeth eich helpu i wneud newidiadau cadarnhaol i'ch ased hanesyddol.
- 2** Mae deall arwyddocâd eich ased hanesyddol yn allweddol er mwyn cynnal asesiad effeithiol o'r effaith ar dreftadaeth.
- 3** Mae asesu'r effaith ar dreftadaeth yn eich helpu i wneud newidiadau i'ch ased hanesyddol sy'n cyd-fynd ag egwyddorion dylunio da.
- 4** Gall asesu'r effaith ar dreftadaeth eich helpu i ysgrifennu datganiadau effeithiol o'r effaith ar dreftadaeth, sy'n arbed amser ac arian i chi drwy osgoi gwaith diwygio costus.
- 5** Mae'n rhaid cyflwyno datganiadau o'r effaith ar dreftadaeth gyda cheisiadau am gydsyniad adeilad rhestredig, cydsyniad ardal gadwraeth ac, os gofynnir amdanynt, gydsyniad heneb gofrestredig. Fel arall, maent yn arfer da pan fyddwch yn cynllunio newid i unrhyw ased hanesyddol.
- 6** Mae datganiadau o'r effaith ar dreftadaeth yn helpu'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau i wneud penderfyniadau cadarn ac amserol.
- 7** Bydd angen i chi gynnwys datganiad mynediad yn eich datganiad o'r effaith ar dreftadaeth mewn perthynas ag unrhyw waith sy'n effeithio ar y trefniadau mynediad i adeilad rhestredig nas defnyddir fel annedd breifat neu mewn unrhyw ran o adeilad o'r fath.
- 8** Dylai proses asesu'r effaith ar dreftadaeth fod yn gymesur ag arwyddocâd eich ased hanesyddol a graddau'r newid a gynigir.

Cyflwyniad \neg

Mae a wnelo cadwraeth â rheoli newid yn ofalus. Golyga hyn ei bod yn hanfodol deall goblygiadau unrhyw newid arfaethedig — o benderfynu beth i'w wneud a sut i'w wneud i benderfynu p'un a ddylid rhoi caniatâd ai peidio.

Mae deall eich ased hanesyddol a'i arwyddocâd wrth wraidd prosesau gwneud penderfyniadau cadarn. Unwaith y byddwch yn deall ei arwyddocâd, gallwch asesu effaith bosibl unrhyw newidiadau arfaethedig ac addasu eich cynigion er mwyn dod o hyd i'r ffordd orau o ddiwallu eich anghenion chi ac anghenion eich ased hanesyddol. Mae asesu'r effaith ar dreftadaeth yn broses a gynlluniwyd i'ch helpu i wneud hyn. Ar ddiwedd y broses, byddwch yn gallu ysgrifennu datganiad o'r effaith ar dreftadaeth.

Mae'n rhaid i chi gynnal asesiad o'r effaith ar dreftadaeth a llunio datganiad o'r effaith ar dreftadaeth ym mhob achos lle mae angen cael cydsyniad adeilad rhestredig neu gydsyniad ardal gadwraeth ar gyfer eich cynigion. Ac efallai y bydd angen i chi gyflwyno datganiad o'r effaith ar dreftadaeth gyda chais am gydsyniad heneb gofrestredig. Ond ar gyfer asedau hanesyddol eraill hefyd — gan gynnwys parciau a gerddi hanesyddol cofrestredig, Safleoedd Treftadaeth y Byd ac asedau hanesyddol o ddiddordeb lleol arbennig — gall asesu'r effaith ar dreftadaeth eich helpu i ddod o hyd i'r ffordd orau o ddarparu ar gyfer newid.⁵

Mae pob un o'r asedau hanesyddol hyn yn ffurfio'r amgylchedd hanesyddol sy'n ganolog i dreftadaeth ddiwylliannol ac ymdeimlad o hunaniaeth Cymru. Mae'n adnodd y mae angen i ni ei drysori a'i ddiogelu ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Fodd bynnag, nid oes angen i waith diogelu atal newid a all gynyddu cynaliadwyedd hirdymor a hyfywedd economaidd asedau hanesyddol. Gall newid cadarnhaol a gynlluniwyd yn dda wella ein dealltwriaeth a'n gwerthfawrogiad o'r amgylchedd hanesyddol yn ogystal â sicrhau manteision cymdeithasol ac economaidd drwy gynyddu gweithgarwch adfywio a thwristiaeth. Gyda'i gilydd, bydd y manteision hyn yn helpu i greu'r Gymru a garem yn y dyfodol drwy gyflawni'r nodau llesiant a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.⁶ Ond mae angen rheoli newid i'r amgylchedd hanesyddol a dyna pam mae'n bwysig ystyried yr effaith y gallai ei chael ar arwyddocâd asedau hanesyddol.

1. Beth yw Asesiad o'r Effaith ar Dreftadaeth? ⇐

Mae asesiad o'r effaith ar dreftadaeth yn broses strwythuredig i sicrhau y byddwch yn ystyried arwyddocâd eich ased hanesyddol pan fyddwch yn datblygu a llunio cynigion ar gyfer newid. Mae'n rhan graidd o'r broses ddylunio, sy'n profi a yw eich cynigion ar gyfer newid ased hanesyddol yn briodol drwy asesu eu heffaith ar ei arwyddocâd. Mae'n helpu i sicrhau bod unrhyw newidiadau yn defnyddio egwyddorion dylunio da i gynnal neu wella arwyddocâd eich ased hanesyddol.

Dylid crynhoi canlyniadau eich asesiad o'r effaith ar dreftadaeth mewn datganiad o'r effaith ar dreftadaeth a gyflwynir gyda'ch cais am gydsyniad adeilad rhestredig, cydsyniad ardal gadwraeth neu, os gofynnir amdano, gydsyniad heneb gofrestrredig. Bydd hyn yn sicrhau bod gan y rhai sy'n gwneud penderfyniadau y wybodaeth sydd ei hangen arnynt i ddeall y rhesymau dros eich cynnig a phwyso a mesur y risgiau a'r manteision. Gall gwybodaeth dda, sydd ar gael o'r dechrau, gyflymu penderfyniadau, lleihau costau a sicrhau gwaith dylunio gwell yn gyffredinol.

2. Pryd mae angen cynnal Asesiad o'r Effaith ar Dreftadaeth? ⇐

2.1 Paratoi Cynigion ⇐

Dylech ddechrau eich asesiad o'r effaith ar dreftadaeth cyn i chi ddechrau llunio cynigion ar gyfer newid eich ased hanesyddol. Gall newid gynnwys gwaith atgyweirio, gwaith adnewyddu, gwaith adfer a gwaith ailadeiladu, gwaith newydd neu waith addasu, a gwaith dymchwel.

Gall y broses asesu eich helpu i ddatblygu eich cynigion, nodi dulliau gweithredu amgen a gwella prosesau cynllunio a dylunio. Mae hyn yn golygu bod yn glir o'r dechrau ynglŷn â'r hyn rydych am ei gyflawni. Pan fyddwch wedi penderfynu ar yr hyn rydych am ei gyflawni, mae'n syniad da dechrau eich asesiad o'r effaith ar dreftadaeth cyn i chi ddechrau cynllunio eich cynnig. Gallwch ddefnyddio'r broses asesu i'ch helpu i ddeall arwyddocâd eich ased hanesyddol a nodi'r ffordd fwyaf priodol o gyflawni eich amcan gan ddefnyddio egwyddorion dylunio da i gynnal neu wella eich ased hanesyddol.⁷

Peidiwch â gwneud eich cynlluniau cyn cynnal eich asesiad o'r effaith ar dreftadaeth — defnyddiwch y broses i'ch helpu i nodi'r ateb gorau ac arbed amser ac arian. Po gyntaf y byddwch yn dechrau'r broses asesu, y mwyaf defnyddiol y mae'n debygol o fod.

2.2 Cydsyniad Adeilad Rhestredig, Cydsyniad Ardal Gadwraeth a Chydsyniad Heneb Gofrestredig ⇐

Mae'n rhaid i chi gyflwyno canlyniadau eich asesiad fel datganiad o'r effaith ar dreftadaeth gyda cheisiadau am y canlynol:

- cydsyniad adeilad rhestredig (awdurdod cynllunio lleol)⁸
- cydsyniad ardal gadwraeth (awdurdod cynllunio lleol).⁹

Mae rhai enwadau wedi'u heithrio rhag proses cydsyniad adeilad rhestredig ar gyfer adeiladau eglwysig sy'n dal i fod yn addoldai, ar yr amod eu bod wedi sefydlu systemau rheoli, ymgynghori a chraffu mewnol a gymeradwywyd gan Weinidogion Cymru. Gelwir hyn yn Esemptiad Eglwysig. Mae'r systemau hyn yn gwneud darpariaeth ar wahân ar gyfer asesu effaith cynigion yn unol ag egwyddorion asesu'r effaith ar dreftadaeth a esbonnir yn y canllawiau hyn.

Efallai y bydd angen i chi gyflwyno datganiad o'r effaith ar dreftadaeth gyda chais am gydsyniad heneb gofrestredig hefyd. Bydd hyn yn dibynnu ar natur eich newidiadau arfaethedig a dylech drafod y mater hwn â Cadw cyn i chi gyflwyno eich cais.

2.3 Caniatâd Cynllunio ⇐

Nid oes angen cyflwyno datganiadau o'r effaith ar dreftadaeth wrth wneud cais am ganiatâd cynllunio, gan gynnwys ar gyfer gwaith datblygu:

- o fewn lleoliad adeilad rhestredig
- o fewn lleoliad heneb gofrestredig
- mewn parc a gardd hanesyddol gofrestredig neu ei leoliad/lleoliad
- mewn ardal gadwraeth
- ar Safle Treftadaeth y Byd.

Serch hynny, o dan yr amgylchiadau hyn, mae'n arfer da mabwysiadu egwyddorion proses asesu'r effaith ar dreftadaeth er mwyn eich helpu i nodi'r ffordd fwyaf priodol o ddarparu ar gyfer newid. Mae proses ar wahân ar gyfer ystyried effaith gwaith datblygu mewn tirweddau hanesyddol cofrestredig.¹⁰

Weithiau, efallai y bydd yr awdurdod cynllunio lleol yn gofyn am ragor o wybodaeth i'w alluogi i benderfynu ar gais cynllunio.¹¹ Gall hyn gynnwys datganiad o'r effaith ar dreftadaeth os yw'r datblygiad arfaethedig yn debygol o effeithio ar ased hanesyddol dynodedig ond nad oes angen cael cydsyniad heneb gofrestredig, cydsyniad adeilad rhestredig na chydsyniad ardal gadwraeth ar ei gyfer. Mae'n syniad da cael trafodaeth gynnar â'ch awdurdod cynllunio lleol er mwyn gweld a fydd angen i chi gyflwyno datganiad o'r effaith ar dreftadaeth, neu unrhyw wybodaeth ychwanegol arall megis asesiad neu werthusiad archaeolegol, i gefnogi eich cais am ganiatâd cynllunio.¹²

Disgwylir i awdurdodau cynllunio lleol ystyried effaith bosibl cynigion datblygu ar arwyddocâd asedau hanesyddol dynodedig a'u lleoliadau.¹³ Bydd yn eu helpu i wneud hyn os defnyddir egwyddorion asesu'r effaith ar dreftadaeth i lunio cynigion datblygu a allai effeithio ar leoliad asedau dynodedig ac asedau heb eu dynodi.¹⁴

Rhaid i geisiadau cynllunio ar gyfer mathau penodol o waith datblygu gael eu hategu gan ddatganiadau dylunio a mynediad, gan gynnwys ar gyfer datblygiadau ar Safleoedd Treftadaeth y Byd ac mewn ardaloedd cadwraeth.¹⁵ Os bydd angen cyflwyno datganiad dylunio a mynediad gyda chais cynllunio mewn ardal gadwraeth neu ar Safle Treftadaeth y Byd, gall eich asesiad o'r effaith ar dreftadaeth gael ei ddogfennu yn yr adran o'r datganiad dylunio a mynediad sy'n ymdrin â chynllunio datblygiad. Mae rhagor o wybodaeth am y gofynion hyn ar gael mewn canllawiau ar wahân.¹⁶

O dan amgylchiadau penodol, efallai y bydd angen i chi gyflwyno datganiad dylunio a mynediad a datganiad o'r effaith ar dreftadaeth; er enghraifft, os ydych yn bwriadu ymestyn adeilad rhestredig mewn ardal gadwraeth neu ar Safle Treftadaeth y Byd drwy greu arwynebedd llawr o 100 metr sgwâr, neu droi adeilad rhestredig yn ddatblygiad preswyl â 10 uned neu fwy. Bydd eich awdurdod cynllunio lleol yn gallu egluro pryd mae angen cyflwyno'r ddau ddatganiad a chytuno â chi ar yr hyn sydd ei angen ar gyfer y naill a'r llall er mwyn osgoi dyblygu.

3. Yr Hyn y Dylech ei Gynnwys yn eich Asesiad o'r Effaith ar Dreftadaeth? ⇐

Dylai eich asesiad o'r effaith ar dreftadaeth ystyried digon o wybodaeth fel y gellir deall arwyddocâd yr ased ac effaith newid. Dylai fod yn gymesur ag arwyddocâd yr ased hanesyddol a graddau'r newid a gynigir.

Os ydych am wneud newid bach sydd ond yn debygol o gael effaith fach iawn, yna bydd asesiad byr sy'n canolbwyntio ar y rhan o'r ased hanesyddol yr effeithir arni, gydag esboniad byr o'r ffordd y mae'n ymwneud â'r ased cyfan, yn ddigon. Mewn achos o'r fath, nid yw'r datganiad o'r effaith ar dreftadaeth a gyflwynir gyda chais am gydsyniad yn debygol o gynnwys mwy na dau baragraff neu dudalen neu ddwy.

Os ydych yn cynnig newid mwy sylweddol, neu os yw eich ased hanesyddol yn arbennig o bwysig, bydd angen i chi wneud asesiad manylach. Bydd angen iddo gynnwys gwybodaeth fanwl am arwyddocâd yr ased cyfan ac esboniad trylwyr o effaith y newidiadau arfaethedig. Mewn achosion sy'n cynnig newidiadau a allai fod yn niweidiol, yn enwedig i asedau hanesyddol cymhleth o arwyddocâd mawr, bydd angen i'r datganiad o'r effaith ar dreftadaeth a gyflwynir gyda'r cais am gydsyniad fod yn fwy cynhwysfawr ac efallai y bydd angen adroddiadau ychwanegol arno, megis gwerthusiad archaeolegol neu arolwg strwythurol.

Mewn achos o'r fath, dylech gyflogi arbenigwr cymwysedig a chymwys i gynnal yr asesiad o'r effaith ar dreftadaeth ac ysgrifennu'r datganiad o'r effaith ar dreftadaeth.¹⁷

Dylai eich awdurdod cynllunio lleol allu rhoi cyngor i chi ynglŷn â chwmpas eich asesiad a'ch datganiad o'r effaith ar dreftadaeth ar gyfer cais am gydsyniad adeilad rhestredig neu gydsyniad ardal gadwraeth. Gall Cadw roi cyngor ar y gofynion ar gyfer ceisiadau am gydsyniad heneb gofrestredig.

Bydd trafodaethau cynnar hefyd yn helpu i nodi a oes angen i chi ymchwilio ymhellach er mwyn nodi arwyddocâd yr ased hanesyddol a deall effaith newid, er enghraifft, drwy:

- ymchwil hanesyddol fanwl, gwaith cofnodi neu ymchwiliad archeolegol
- arolygon o gyflwr, perfformiad strwythurol ac amgylcheddol ac ecoleg.
- datganiad dull ar gyfer gwaith atgyweirio neu waith dymchwel
- manylion y diogelwch a roddir i nodweddion arbennig yn ystod y gwaith.

Mae hefyd yn bwysig cofio, wrth ystyried unrhyw newidiadau i ased hanesyddol, y dylai eich cynigion annog diwylliant o gynhwysiant a darparu mynediad i'r amrywiaeth ehangaf posibl o bobl. Golyga hyn ei bod yn arfer da ystyried materion mynediad yn gynnar yn eich asesiad o'r effaith ar dreftadaeth a'r hyn fydd ei angen, o bosibl, er mwyn sicrhau lefel dderbyniol o fynediad — yn enwedig lle mae'r cyhoedd yn ymweld â'r ased hanesyddol ac y darperir gwasanaethau.¹⁸

Mae camau sylfaenol proses asesu'r effaith ar dreftadaeth, waeth beth fo maint a chwmpas y prosiect, fel a ganlyn:

1. esbonio eich amcan a pham mae newidiadau yn ddymunol neu'n angenrheidiol
2. deall arwyddocâd eich ased hanesyddol
3. nodi eich newidiadau arfaethedig
4. asesu effaith eich cynigion
5. nodi'r rheswm dros ddewis yr opsiwn a ffeirir gennych, gan gynnwys eich cysyniadau a'ch egwyddorion dylunio, o ystyried y broses asesu.

Unwaith y byddwch yn glir ynghylch camau 1 a 2, gellir ail-wneud camau 3, 4 a 5 nes i chi ddod o hyd i'r cynnig gorau sy'n cyflawni eich amcan ac sy'n sicrhau'r budd mwyaf posibl i'ch ased hanesyddol.

Dyma hefyd brif elfennau'r datganiad o'r effaith ar dreftadaeth y dylech ei gyflwyno gyda'ch cais (gweler adran 7).

4. Proses Asesu'r Effaith ar Dreftadaeth ⇨

4.1 Esbonio eich Amcan ⇨

Mae'n bwysig bod yn glir ynglŷn â'r hyn rydych yn ceisio ei gyflawni cyn ystyried sut i wneud hynny. Bydd angen i chi fod yn glir ynglŷn â diben unrhyw newid arfaethedig o'r dechrau fel y gallwch nodi'r ffyrdd gwahanol y gellid cyflawni'r amcan a dod o hyd i'r opsiwn a'r ymateb dylunio mwyaf priodol.

Er enghraifft, tybiwch eich bod yn ystyried gwneud eich adeilad rhestredig yn fwy ynni-ffeithlon. Gyda hwn fel eich amcan, byddech yn mynd ymlaen i nodi'r gwahanol ffyrdd y gellid cyflawni hyn ac ystyried eu heffaith ar arwyddocâd eich adeilad. Yn lle tybio bod angen deunydd inswleiddio waliau mewnol neu allanol arnoch, byddech yn ystyried

opsiynau amgen megis gwaith i sicrhau bod yr adeilad mewn cyflwr da, gosod haen arall o wydr neu newid y boeler, y gallai pob un ohonynt gael llai o effaith ar yr adeiladwaith a'r cymeriad hanesyddol.

Bydd angen i'ch datganiad o'r effaith ar dreftadaeth esbonio'r hyn y bwriedir i'r gwaith arfaethedig ei gyflawni a pham maent yn ddymunol neu'n angenrheidiol.

4.2 Deall Arwyddocâd ⇐

Bydd deall arwyddocâd eich ased hanesyddol yn eich helpu i lywio a llunio eich cynigion o'r dechrau. Gall paratoi datganiad o arwyddocâd eich helpu i wneud hyn.

Dylai eich datganiad o arwyddocâd gynnwys disgrifiad byr o'ch ased hanesyddol a chrynodeb o'i werth treftadaeth cyffredinol. Dylai gyfeirio'n benodol at yr agweddau hynny ar ei arwyddocâd y bydd eich cynigion yn effeithio'n fwyaf uniongyrchol arnynt a'u cyfraniad at yr ased cyfan. Bydd canolbwyntio ar werthoedd treftadaeth eich ased hanesyddol yn eich helpu i ddadansoddi ei arwyddocâd:

- gwerth tystiolaethol: y graddau y mae'r adeiladwaith yn dweud wrthym sut a phryd y gwnaed eich ased hanesyddol, sut y'u defnyddiwyd a sut mae wedi newid dros amser. Gall fod elfennau claddedig neu guddiedig yn gysylltiedig â'ch ased hanesyddol a all hefyd fod yn ffynhonnell bwysig bosibl o dystiolaeth.
- gwerth hanesyddol: efallai fod eich ased hanesyddol yn dangos ffordd benodol o fyw yn y gorffennol neu efallai ei fod yn gysylltiedig ag unigolyn neu ddigwyddiad penodol; gall fod tystiolaeth ffisegol am y cysylltiadau hyn y gallai fod yn bwysig ei chadw
- gwerth esthetig: cynllun, adeiladwaith a chreffftwaith eich ased hanesyddol. Gall hyn hefyd gynnwys lleoliad a golygfeydd i'r ased hanesyddol ac oddi yno, a all fod wedi newid dros amser.¹⁹
- gwerth cymunedol: efallai fod eich ased hanesyddol yn arbennig o bwysig i bobl oherwydd ei werth coffaol, symbolaidd neu ysbrydol neu oherwydd y rhan y mae wedi'i chwarae ym mywyd diwylliannol neu gyhoeddus yr ardal leol. Bydd hyn yn arbennig o bwysig yn achos adeiladau sy'n cael eu defnyddio gan y cyhoedd neu safleoedd lle y mae'n rhaid cynnal neu wella mynediad cyhoeddus.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am werthoedd treftadaeth yn *Egwyddorion Cadwraeth*.²⁰

Os yw eich ased hanesyddol yn rhan o Safle Treftadaeth y Byd bydd hefyd angen i chi ddeall ei Werth Cyffredinol Eithriadol, sef y rheswm pam mae wedi'i gofnodi ar Restr Treftadaeth y Byd. Mae *Rheoli Newid ar Safleoedd Treftadaeth y Byd yng Nghymru* yn darparu rhagor o wybodaeth.²¹

Yn ogystal â'ch gwybodaeth a'ch arbenigedd eich hun, mae llawer o ffynonellau o wybodaeth i'ch helpu i ddeall eich ased hanesyddol a llunio eich datganiad o arwyddocâd:

- Cof Cymru — mae cofnod ar-lein Cadw o asedau hanesyddol cenedlaethol Cymru yn fan cychwyn da ar gyfer cofnodion o adeiladau rhestredig, henebion cofrestredig a Safleoedd Treftadaeth y Byd yng Nghymru²²
- mae arfarniadau o ardaloedd cadwraeth, a gynhelir gan eich awdurdod cynllunio lleol, yn esbonio pam mae ardal wedi'i dynodi a'r hyn sy'n ei gwneud yn arbennig
- mae eich cofnod amgylchedd hanesyddol lleol yn cynnwys gwybodaeth helaeth am bob math o ased hanesyddol yng Nghymru²³
- gall fod gan eich swyddfa archifau leol a Chofnod Henebion Cenedlaethol Cymru dystiolaeth ddogfennol ddefnyddiol am eich ased hanesyddol
- efallai y bydd hen ffotograffau a mapiau hanesyddol yn darparu tystiolaeth am y ffordd mae eich ased hanesyddol wedi newid dros amser
- efallai y bydd swyddog cadwraeth eich awdurdod lleol, swyddog y cofnod amgylchedd hanesyddol yn eich ymddiriedolaeth archaeolegol leol yng Nghymru neu gynghorydd archaeolegol mewnol yr awdurdod lleol yn gallu rhoi cyngor i chi hefyd.

I gael rhagor o wybodaeth am ddeall arwyddocâd gweler *Egwyddorion Cadwraeth, Rheoli Newid i Adeiladau Rhestredig yng Nghymru, Rheoli Ardaloedd Cadwraeth yng Nghymru a Rheoli Newid i Barciau a Gerddi Hanesyddol Cofrestredig yng Nghymru*.²⁴

Bydd hefyd angen i'ch datganiad o'r effaith ar dreftadaeth ddangos eich bod wedi ystyried arwyddocâd eich ased drwy gynnwys datganiad o arwyddocâd. Dylai hyn gyfeirio at arwyddocâd yr ased cyfan ac at y rhan benodol y bydd eich newidiadau arfaethedig yn effeithio arni.

4.3 Nodi Newidiadau Arfaethedig \neg

Unwaith y byddwch wedi deall arwyddocâd eich ased hanesyddol, dylech allu nodi'r ffordd orau o gyflawni eich amcan a datblygu cynigion penodol sy'n parchu ei gymeriad.

Efallai y bydd angen i chi ailystyried eich newidiadau arfaethedig ar ôl i chi asesu eu heffaith bosibl.

Dylai eich datganiad o'r effaith ar dreftadaeth ddisgrifio eich cynigion, gan gynnwys yr egwyddorion a'r cysyniadau dylunio, a chynnwys rhestr waith fer, sy'n rhoi digon o wybodaeth am y gwaith arfaethedig fel y gellir gwneud penderfyniad hyddysg.

Bydd y cynlluniau, y drychiadau a lluniadau eraill a gyflwynir fel rhan o'r cais am gydsyniad yn darparu gwybodaeth ategol ddefnyddiol, sy'n dangos y sefyllfa bresennol a sut y bydd y cynigion yn ei newid. Ceir rhagor o wybodaeth am gyflwyno cais am gydsyniad yn *Rheoli Newid i Adeiladau Rhestredig yng Nghymru a Rheoli Ardaloedd Cadwraeth yng Nghymru*.²⁵ Mae *Polisi Cynllunio Cymru a Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol* yn cynnwys gwybodaeth os ydych yn ystyried yr amgylchedd hanesyddol fel rhan o gais cynllunio.²⁶

4.4 Asesu Effaith eich Cynigion \neg

Pan fyddwch yn ystyried eich cynigion, gall asesu'r effaith y gallai eich newidiadau arfaethedig ei chael ar arwyddocâd eich ased hanesyddol eich helpu i nodi'r ffordd fwyaf priodol o wneud y newidiadau hynny.

Efallai y bydd yn ddefnyddiol i chi lunio eich asesiad drwy ofyn y cwestiynau canlynol:

- sut y byddai eich cynigion yn effeithio ar werth tystiolaethol yr ased hanesyddol? A fyddent yn arwain at golli neu ddifrodi adeiladwaith hanesyddol, gan gynnwys tystiolaeth archaeolegol neu a fyddent yn ei gwneud hi'n anos gwerthfawrogi'r ffordd y defnyddiwyd yr adeilad neu safle yn y gorffennol a sut mae wedi newid dros amser?
- sut y byddai'r cynigion yn effeithio ar nodweddion esthetig neu nodweddion dylunio o'r ased hanesyddol? A fyddant yn peryglu ei egwyddorion dylunio hanesyddol — megis ei gynllun, ei raddfa a'i faint — neu a fyddant yn arwain at golli manylion neu grefftwaith hanesyddol?
- sut y byddai'r cynigion yn effeithio ar werth cymunedol? A fyddent yn ei gwneud hi'n haws i bobl gael mynediad i'r adeilad a'r safle a'i werthfawrogi?
- a oes unrhyw risgiau neu fanteision eraill? Er enghraifft, gallai risgiau gynnwys mwy o rwymedigaethau o ran gwaith cynnal a chadw a rheoli, neu'r posibilrwydd y caiff perfformiad ei danseilio drwy ddefnyddio deunyddiau anghydnaws; gallai manteision gynnwys cyflwyno defnydd newydd cynaliadwy.
- os yw eich ased hanesyddol o fewn Safle Treftadaeth y Byd neu os yw'n rhan o Safle Treftadaeth y Byd, beth fyddai effaith eich cynigion ar ei Werth Cyffredinol Eithriadol?

Efallai na fydd gennych ddigon o wybodaeth i asesu'r effaith. O dan yr amgylchiadau hyn, efallai y bydd angen gwneud rhagor o waith ymchwil neu waith ymchwilio. Dylai hyn fod yn gymesur ag arwyddocâd yr ased a maint yr effaith.

Bydd y rhan fwyaf o gynigion yn cael amrywiaeth o effeithiau a all fod yn:

- gadarnhaol — megis atgyweirio difrod, cael gwared ar elfennau ymwthiol neu adfer adeilad at ddefnydd buddiol fel na fydd mewn perygl mwyach
- niwtral — megis pan gaiff cynigion eu llunio'n sympathetig, neu pan ddarperir ar gyfer newid mewn rhan o'r adeilad neu'r safle sy'n llai sensitif

- negyddol — megis pan gaiff adeiladwaith pwysig neu agweddau pwysig ar y cynllun gwreiddiol eu dileu neu eu newid. Os bydd y sawl sy'n gwneud y penderfyniad o'r farn bod maint y difrod yn annerbyniol ac nad oes fawr ddim manteision i gydbwysu'r difrod hwnnw, gall y cais gael ei wrthod.

Er enghraifft, bydd addasu capel afraid i'w ddefnyddio fel llyfrgell yn golygu colli rhywfaint o'r adeiladwaith mewnol sy'n adlewyrchu ei ddiben hanesyddol ac sy'n rhan o'i gynllun. Bydd hyn yn tansilio ei werth tystiolaethol ac esthetig, ond mae'n debygol o gadw neu hyd yn oed wella ei werth cymunedol drwy sicrhau mynediad parhaus i'r cyhoedd. Felly, mae manteision sicrhau'r defnydd newydd hwn ar gyfer yr adeilad yn drech na'r anfanteision. Gallai defnyddiau newydd amgen megis addasu'r capel i'w ddefnyddio fel cartref olygu colli hyd yn oed fwy o'r adeiladwaith a byddent yn debygol o leihau ei werth cymunedol drwy gyfyngu ar y mynediad iddo.

Bydd angen i'ch datganiad o'r effaith ar dreftadaeth ddangos eich bod wedi ystyried effaith bosibl y dull gweithredu a ffeirir gennych. Bydd angen i chi ddangos sut y bydd eich gwaith arfaethedig yn cynnal neu'n gwella arwyddocâd eich ased hanesyddol, gan gynnwys manteision posibl ac unrhyw niwed.

4.5 Dod o Hyd i'r Ateb Gorau ⇐

Wrth ddatblygu eich cynigion, mae angen i chi nodi'r dull gweithredu a fydd yn sicrhau'r budd mwyaf ac yn achosi'r niwed lleiaf i'ch ased hanesyddol, fel y byddwch yn cynnal neu'n gwella ei arwyddocâd. Un o'r ffyrdd pwysicaf y gallwch wneud hyn yw drwy ystyried dewisiadau amgen yn gynnar. Er enghraifft, a ellid adleoli estyniad fel y byddai'n amharu llai ar gynllun gwreiddiol adeilad hanesyddol neu unrhyw olion archaeolegol claddedig, neu a ellid atgyweirio nodwedd yn hytrach na gosod un newydd yn ei lle.

Mae defnyddio egwyddorion dylunio a rheoli da yn bwysig hefyd. Er enghraifft, gallwch sicrhau:

- mai eich ymyriad yw'r isafswm sydd ei angen a bod gwaith newydd wedi'i gynllunio fel y gellir ei osod, neu hyd yn oed ei symud, heb ddifrodi adeiladwaith arwyddocaol na thystiolaeth archaeolegol
- bod eich dyluniad yn un sensitif, o ran graddfa, deunyddiau, lleoliad a ffurf
- gan ddibynnu ar faint eich gwaith arfaethedig, fod eich cynllun yn seiliedig ar ddeall pob agwedd ar y safle a'i gyd-destun yn ogystal ag arwyddocâd yr ased hanesyddol. Gall gwaith dylunio o safon uchel wneud cyfraniad cadarnhaol at werthoedd treftadaeth eich ased hanesyddol a'i leoliad.²⁷ Gall Comisiwn Dylunio Cymru ddarparu rhagor o ganllawiau ar waith dylunio da ac mae'n cynnig gwasanaethau adolygu gwaith dylunio am ddim er mwyn asesu cynigion.²⁸
- bod eich amseru yn sensitif; er enghraifft, drwy amseru gwaith ar y to er mwyn osgoi effeithiau ar nythfeydd ystlumod neu osgoi cyfnodau prysur pan fydd yr ased hanesyddol yn cael ei ddefnyddio gan y gymuned

- bod eich dulliau o wneud y gwaith arfaethedig yn sensitif, gan gynnwys er enghraifft, diogelu nodweddion arwyddocaol, osgoi offer mecanyddol a gwaith poeth.

Bydd angen i'ch datganiad o'r effaith ar dreftadaeth ddangos eich bod wedi ystyried amrywiaeth o opsiynau i fodloni eich gofynion ac esbonio pam rydych wedi dewis y dull a ffeirir gennych. Bydd hyn yn helpu'r sawl sy'n gwneud y penderfyniad i lunio barn gytbwys.

5. Gwrthbwysu ⇧

O dan rai amgylchiadau, lle na ellir osgoi difrod, gall fod cyfleoedd i gyflwyno mesurau gwrthbwysu. Er na fydd y rhain yn lleihau effaith uniongyrchol newid ar arwyddocâd yr ased hanesyddol, gallant wrthbwysu'r niwed.

Gallai mesurau gwrthbwysu, er enghraifft, gynnwys creu mynediad cyhoeddus, gwella dealltwriaeth drwy waith ymchwilio manwl, darparu deunydd dehongli, neu (fel dewis olaf) gofnodi unrhyw nodweddion a gaent eu difrodi, eu cuddio neu hyd yn oed eu dinistrio gan y gwaith arfaethedig.

Dylai eich cynigion ar gyfer gwrthbwysu difrod gael eu cyflwyno i'ch awdurdod cynllunio lleol pan fyddant yn ymwneud ag adeilad rhestredig neu ardal gadwraeth, neu i Cadw yn achos henebion cofrestredig fel y gellir pwysu a mesur manteision y cynllun, gan gynnwys y mesurau gwrthbwysu, yn erbyn effaith y datblygiad ar arwyddocâd yr ased hanesyddol.

6. Datganiad Mynediad ⇧

Efallai y bydd angen i chi gynnwys datganiad ffurfiol ar fynediad yn eich datganiad o'r effaith ar dreftadaeth wrth wneud cais am gydsyniad adeilad rhestredig. Dim ond mewn perthynas â gwaith sy'n effeithio ar y trefniadau mynediad i adeilad rhestredig nas defnyddir fel annedd breifat neu mewn unrhyw ran o adeilad o'r fath y bydd angen i chi wneud hyn.²⁹ Er enghraifft, efallai y bydd eich adeilad rhestredig yn cynnwys siop ar y llawr gwaelod gyda fflat uwch ei phen, a ddefnyddir fel annedd breifat. Pe bai eich newidiadau arfaethedig yn effeithio ar y fynedfa i'r fflat neu fynedfa y tu mewn iddi, ni fyddai angen i chi gynnwys datganiad mynediad. Ar y llaw arall, os ydych yn gwneud cais am gydsyniad adeilad rhestredig i wneud newidiadau a fyddai'n effeithio ar y fynedfa i'r siop neu fynedfa y tu mewn iddi, yna byddai angen i chi gynnwys datganiad mynediad gyda'ch cais am gydsyniad. Bydd eich awdurdod cynllunio lleol yn gallu dweud wrthy'ch p'un a oes angen i chi gyflwyno datganiad mynediad ai peidio.

Os bydd datganiad mynediad yn ofynnol, bydd angen i chi ystyried pob opsiwn amgen ymarferol fel rhan o'ch proses asesu'r effaith ar dreftadaeth fel y gallwch nodi'r opsiwn sy'n darparu mynediad rhesymol orau ac sy'n cael yr effaith andwyol leiaf ar arwyddocâd eich adeilad rhestredig. Bydd angen i'ch datganiad mynediad nodi'n glir sut mae eich dull dylunio cynhwysol wedi cydbwysu unrhyw ddyletswyddau sydd angen eu cyflawni o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ag arwyddocâd hanesyddol a phensaernïol eich adeilad rhestredig.³⁰

Bydd angen i chi ddangos eich bod wedi cymryd pob cam rhesymol i ddarparu mynediad llawn, tra'n cydnabod y gall arwyddocâd eich adeilad rhestredig gyfyngu ar yr opsiynau ar gyfer gwneud hynny weithiau. Dylai eich datganiad gofnodi unrhyw faterion penodol a all fod wedi deillio o'r ffaith bod eich adeilad yn rhestredig a'r opsiynau a ystyriwyd gennych. Os nad yw eich cynllun yn gwbl gynhwysol, dylai eich datganiad esbonio pam nad yw hyn yn bosibl.

Os yw cymeriad eich adeilad rhestredig yn golygu na ellir ei newid mewn ffordd a fyddai'n eich galluogi i sicrhau lefelau gofynnol o hygyrchedd, gallech nodi addasiadau neu weithdrefnau eraill a fydd yn eich galluogi i fodloni gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, ddefnyddio cyfarpar cludadwy neu newidiadau i arferion rheoli.³¹ Hefyd, efallai y bydd amgylchiadau lle y gellir cyflawnhau newidiadau ar y sail y byddai gwaith dylunio cynhwysol yn ei gwneud yn bosibl i'r adeilad rhestredig gael ei ddefnyddio mewn ffordd fuddiol.

Mae *Goresgyn y Rhwystrau: Darparu Mynediad Corfforol i Adeiladau Hanesyddol* yn ffynhonnell dda o gyngor defnyddiol ar waith dylunio cynhwysol.³² Gellir dod o hyd i ateb boddhaol bron bob amser ar yr amod y caiff dulliau gweithredu llawn dychymyg ac arloesol eu hystyried yn llawn.

7. Cyflwyno eich Datganiad o'r Effaith ar Dreftadaeth ↪

Dylai canlyniadau eich asesiad o'r effaith ar dreftadaeth gael eu nodi mewn datganiad o'r effaith ar dreftadaeth a gyflwynir gyda'ch cais am gydsyniad. Nodir y gofynion ar gyfer cydsyniad adeilad rhestredig a chydsyniad ardal gadwraeth isod.³³ Gall Cadw ddweud wrthy'ch pryd mae angen i chi gyflwyno datganiad o'r effaith ar dreftadaeth gyda chais am gydsyniad heneb gofrestredig a'r hyn y dylai ei gynnwys, ond bydd yr egwyddorion sylfaenol yr un peth ar gyfer y datganiad hwn ac unrhyw ddatganiad arall o'r effaith ar dreftadaeth y gallai fod angen i chi ei lunio.

Yn ogystal â datganiad ysgrifenedig, efallai y bydd yn ddefnyddiol i chi grynhoi eich datganiad o'r effaith ar dreftadaeth mewn tabl. Dangosir rhai enghreifftiau yn yr Atodiad.

Cofiwch fod angen i'ch datganiad o'r effaith ar dreftadaeth fod yn gymesur ag arwyddocâd eich ased hanesyddol a graddau'r newid a gynigir gennych.

Fel arfer mae achosion syml yn gofyn am ddatganiadau byr: Ar gyfer sefyllfaoedd mwy cymhleth bydd angen cyflwyno adroddiadau hirach ac mae'n ddefnyddiol darparu datganiad cryno o arwyddocâd ac effaith eich cynigion fel rhagarweiniad iddynt.

7.1 Cydsyniad Adeilad Rhestredig \neg

Mae'n rhaid i'ch datganiad o'r effaith ar dreftadaeth i ategu cais am gydsyniad adeilad rhestredig gynnwys y canlynol:

- disgrifiad o'ch gwaith arfaethedig, gan gynnwys yr egwyddorion a'r cysyniadau dylunio a rhestr waith, a dylid cyfeirio at unrhyw ffotograffau, cynlluniau a lluniadau sy'n cefnogi eich cais am gydsyniad
- eich cyfiawnhad dros y gwaith arfaethedig, sy'n esbonio'r hyn rydych yn bwriadu ei gyflawni a pham mae'r gwaith yn ddymunol neu'n angenrheidiol
- disgrifiad byr o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig eich adeilad rhestredig ac asesiad o'i arwyddocâd, gan roi pwyslais arbennig ar yr agweddau hynny y bydd eich cynigion yn effeithio arnynt
- asesiad o effaith y gwaith arfaethedig ar ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig eich adeilad rhestredig a'i arwyddocâd, gan gynnwys manteision posibl ac unrhyw niwed
- crynodeb o'ch opsiynau a'r rhesymau dros ddewis y dull gweithredu a ffeirir gennych
- datganiad mynediad, os oes angen un

7.2 Cydsyniad Ardal Gadwraeth \neg

Mae'n rhaid i'ch datganiad o'r effaith ar dreftadaeth i ategu cais am gydsyniad ardal gadwraeth gynnwys y canlynol:

- disgrifiad o'ch gwaith arfaethedig, gan gynnwys rhestr waith
- esboniad o'r hyn rydych yn bwriadu ei gyflawni a pham mae dymchwel yr adeilad yn ddymunol neu'n angenrheidiol
- disgrifiad o'r cyfraniad y mae'r adeilad rydych yn bwriadu ei ddymchwel yn ei wneud at gymeriad neu olwg yr ardal gadwraeth
- asesiad o'r effaith y caiff dymchwel yr adeilad ar gymeriad neu olwg yr ardal gadwraeth, gan gynnwys manteision posibl ac unrhyw niwed
- crynodeb o'r opsiynau a ystyriwyd gennych, ac eithrio dymchwel yr adeilad, a'r rhesymau dros ddewis y dull gweithredu a ffeirir gennych.

Atodiad ↗

Datganiad Cryno Enghreifftiol o'r Effaith ar Dreftadaeth ↗

Mae'r datganiadau cryno hyn yn rhoi trosolwg cyfleus o'r gwaith arfaethedig, ond nid ydynt yn ddigon i gyd-fynd â cheisiadau cydsynio. Mae'r gofynion llawn ar gyfer y datganiadau o'r effaith ar dreftadaeth wedi eu rhestru yn Adran 7.

Gwaith Arfaethedig	Eich amcan	Arwyddocâd yr adeiladwaith yr effeithir arno	Asesu'r effaith fuddiol	Asesu'r effaith niweidiol	Ateb Arfaethedig
Gosod to newydd ar annedd frodorol restredig sy'n dyddio o ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg gan ddefnyddio llechi tebyg ond gan gyflwyno deunydd inswleiddio.	Er mwyn atgyweirio to diffygiol iawn a gwella effeithlonrwydd ynni'r tŷ.	Mae'r to yn rhan o'r adeilad gwreiddiol.	Mae'n sicrhau y parheir i ddefnyddio'r adeilad.	Colli rhywfaint o ddeunydd gwreiddiol; newid bach i olwg allanol yr adeilad sy'n gysylltiedig â chyflwyno llechi newydd.	Gwaith dylunio i leihau'r effaith, aildefnyddio llechi presennol lle y bo'n bosibl a sicrhau bod y llechi newydd mor debyg â phosibl i'r rhai gwreiddiol. Cynnwys deunydd inswleiddio o fewn proffil y bondo presennol.
Adeiladu estyniad i fwthyn brodorol bach rhestredig.	Er mwyn gwneud yr adeilad yn fwy addas i ffordd o fyw'r unfed ganrif ar hugain drwy greu lle ychwanegol i fyw ac ystafell amlbwrpas.	Mae cynllun gwreiddiol a manylion yr adeilad gan gynnwys to llechi wedi'u gosod nodedig i'w gweld o hyd.	Bydd yn bosibl gwneud defnydd ymarferol o'r adeilad.	Mae cynllun yr estyniad sy'n dilyn llinell y to presennol yn weledol ymwithiol ac yn amharu ar gynllun yr adeilad.	Codi estyniad i gefn yr adeilad gydag un draws yn eu cysylltu fel nad effeithir ar y cynllun gwreiddiol. Sicrhau bod llinell y to newydd yn is fel na fydd modd gweld yr estyniad o du blaen yr adeilad.
Gosod paneli solar ar oledf to blaen tŷ pentref rhestredig sy'n dyddio o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg.	Er mwyn gwella effeithlonrwydd ynni.	Mae'r adeilad wedi goroesi'n gyflawn i raddau helaeth am ei fod wedi'i adeiladu tua 1850.	Mae'n gwella cynaliadwyedd yr eiddo.	Bydd paneli solar yn elfen ymwithiol yn y cynllun cyffredinol.	Gosod y paneli solar ar adeilad allan neu osod arâe o baneli solar ar dir yr eiddo.

Gwaith Arfaethedig	Eich amcan	Arwyddocâd yr adeiladwaith yr effeithir arno	Asesu'r effaith fuddiol	Asesu'r effaith niweidiol	Ateb Arfaethedig
Dymchwel sinema nas defnyddir mewn ardal gadwraeth.	Er mwyn galluogi ei ailddatblygu ar gyfer tai.	Nid yw'r adeilad yn rhestredig ac nid yw'n gwneud cyfraniad cadarnhaol i gymeriad yr ardal gadwraeth.	Mae'n dileu dolur llygad o'r ardal gadwraeth; bydd ailddatblygu'r adeilad yn gwella ei olwg a'i fywiogrwydd.	Colli adeilad â gwerth cymunedol sylweddol.	Sicrhau bod cynllun adeiladau a godir yn lle'r sinema yn parchu llinellau adeiladau a ffiniau lleiniau; gwaith cofnodi cyn dymchwel y sinema.
Adeiladu garej frics newydd mewn gardd mewn ardal gofrestredig.	Er mwyn galluogi'r deiliad tŷ i roi ei gar yn ddiogel mewn garej.	Mae lleoliad arfaethedig y garej ar safle heneb gofrestredig.	Dim	Dinistrio olion archaeolegol o bwys cenedlaethol.	Lleoli'r garej y tu allan i ardal yr heneb gofrestredig os yw'n bosibl. Ystyried adeiladwaith ysgafn, megis pren neu borth car. Efallai y bydd angen gwneud gwaith cloddio archaeolegol neu gynnal briff gwyllo o hyd.

Cyfeiriadau ↗

- 1 Cadw yw gwasanaeth amgylchedd hanesyddol Llywodraeth Cymru. *Egwyddorion Cadwraeth ar gyfer Rheoli Amgylchedd Hanesyddol Cymru mewn Ffordd Gynaliadwy*, Cadw, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2011 ↗
<http://cadw.gov.wales/historicenvironment/conservation/conservationprinciples/?skip=1&lang=cy>
- 2 *Nodyn Cyngor Technegol 12: Dylunio* ↗
<http://gov.wales/topics/planning/policy/tans/?skip=1&lang=cy>
- 3 *Polisi Cynllunio Cymru* (Argraffiad 9), Pennod 6: Yr Amgylchedd Hanesyddol ↗
<http://gov.wales/topics/planning/policy/ppw/?skip=1&lang=cy>
- 4 *Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol* ↗
<http://gov.wales/topics/planning/policy/tans/?skip=1&lang=cy>
- 5 Esbonnir asedau hanesyddol o ddiddordeb arbennig yn *Rheoli Rhestrau o Asedau Hanesyddol o Ddiddordeb Lleol Arbennig*, Llywodraeth Cymru, Cadw, 2017 ↗
<http://cadw.gov.wales/historicenvironment/publications/?skip=1&lang=cy>
- 6 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ↗
<http://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2015/2/contents/enacted/welsh>
- 7 Esbonnir egwyddorion dylunio da yn *Nodyn Cyngor Technegol 12: Dylunio* ↗
<http://gov.wales/topics/planning/policy/tans/?skip=1&lang=cy>
- 8 Rheoliadau Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) (Cymru) 2012 fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) (Cymru) (Diwygio Rhif 2) 2017. ↗
- 9 Rheoliadau Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) (Cymru) 2012 fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) (Cymru) (Diwygio Rhif 2) 2017 ↗
- 10 *Canllaw Arfer Da ar Ddefnyddio'r Gofrestr o Dirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol yng Nghymru yn ystod y Broses o Gynllunio a Datblygu*, (2il) argraffiad diwygiedig gan gynnwys diwygiadau i'r broses asesu (ASIDOHL2), Cadw, Llywodraeth Cynulliad Cymru a Chyngor Cefn Gwlad Cymru, 2007 ↗
http://cadw.gov.wales/docs/cadw/publications/LandscapesRegisterGoodPractice_CY.pdf
- 11 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, adran 62(3) ↗
<http://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1990/8/section/62>
- 12 Mae'n rhaid i ddatblygwyr ymgynghori â Cadw cyn cyflwyno ceisiadau cynllunio penodol ar gyfer gwaith datblygu mawr: gweler erthygl 2D o Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012
<http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2012/801/contents/made/welsh>
fel y'i mewnosodwyd gan erthygl 4 o Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) (Diwygio) 2016 ↗
<http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2016/59/article/4/made/welsh>
Llawlyfr Rheoli Datblygu, Llywodraeth Cymru
<http://gov.wales/topics/planning/policy/development-management-manual/?skip=1&lang=cy>

- 13 *Polisi Cynllunio Cymru* (Argraffiad 9), Pennod 6: Yr Amgylchedd Hanesyddol \rightarrow
<http://gov.wales/topics/planning/policy/ppw/?skip=1&lang=cy>
Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol, paragraffau 1.23–1.29
<http://gov.wales/topics/planning/policy/tans/?skip=1&lang=cy>
- 14 *Mae Lleoliad Asedau Hanesyddol yng Nghymru* yn esbonio sut i asesu lleoliad, Llywodraeth Cymru, Cadw, 2017 \rightarrow
<http://cadw.gov.wales/historicenvironment/publications/?skip=1&lang=cy>
- 15 Erthygl 7 o Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012/801 \rightarrow
<http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2012/801/contents/made/welsh>
fel y'i diwygiwyd gan erthygl 9 o Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2016
<http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2016/59/article/7/made/welsh>
- 16 *Datganiadau Dylunio a Mynediad yng Nghymru*, Llywodraeth Cymru \rightarrow
<http://gov.wales/topics/planning/policy/?skip=1&lang=cy>
- 17 Bydd angen i arbenigwr cymwysedig a chymwys ddangos ei gymwysterau a'i brofiad, ond gallai gynnwys syrfëwr adeiladau hanesyddol, pensaer cadwraeth neu archaeolegydd gan ddibynnu ar natur yr asedau sy'n cael eu hasesu. \rightarrow
- 18 Gweler nodweddion gwarchoddedig ac ymddygiad gwaharddedig a nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010 \rightarrow
<http://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2010/15/contents>
- 19 *Gweler Lleoliad Asedau Hanesyddol yng Nghymru*, Llywodraeth Cymru, Cadw, 2017 \rightarrow
<http://cadw.gov.wales/historicenvironment/publications/?skip=1&lang=cy>
- 20 *Egwyddorion Cadwraeth ar gyfer Rheoli Amgylchedd Hanesyddol Cymru mewn Ffordd Gynaliadwy*, Cadw, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2011 \rightarrow
<http://cadw.gov.wales/historicenvironment/conservation/conservationprinciples/?skip=1&lang=cy>
- 21 *Rheoli Newid ar Safleoedd Treftadaeth y Byd yng Nghymru*, Llywodraeth Cymru, Cadw, 2017 \rightarrow
<http://cadw.gov.wales/historicenvironment/publications/?skip=1&lang=cy>
- 22 Efallai y bydd y disgrifiad ar Cof Cymru yn esbonio pam mae eich ased wedi'i ddynodi, ond mae'n bosibl na fydd yn nodi pob un o'i nodweddion arbennig ac nid yw'r disgrifiad ei hun yn ddatganiad o arwyddocâd. Ychwanegir parciau a gerddi hanesyddol cofrestredig at Cof Cymru yn ystod 2018. \rightarrow
<http://cadw.gov.wales/historicenvironment/recordsv1/cof-cymru/?lang=cy>
- 23 Archwilio — mae'n galluogi'r cyhoedd i weld y cofnodion amgylchedd hanesyddol ar gyfer pob ardal awdurdod lleol yng Nghymru ar-lein. Caiff Archwilio ei gynnal a'i ategu â rhagor o wybodaeth a gedwir gan ymddiriedolaethau archaeolegol Cymru. \rightarrow
<http://www.archwilio.org.uk>

- 24 *Egwyddorion Cadwraeth ar gyfer Rheoli Amgylchedd Hanesyddol Cymru mewn Ffordd Gynaliadwy*, Llywodraeth Cymru, Cadw, 2011 ¹
<http://cadw.gov.wales/historicenvironment/conservation/conservationprinciples/?lang=cy>
Rheoli Newid i Adeiladau Rhestredig yng Nghymru, Llywodraeth Cymru, Cadw, 2017
<http://cadw.gov.wales/historicenvironment/publications/?skip=1&lang=cy>
Rheoli Ardaloedd Cadwraeth yng Nghymru, Llywodraeth Cymru, Cadw, 2017
<http://cadw.gov.wales/historicenvironment/publications/?skip=1&lang=cy>
Rheoli Newid i Barciau a Gerddi Hanesyddol Cofrestredig yng Nghymru, Llywodraeth Cymru, Cadw, 2017
<http://cadw.gov.wales/historicenvironment/publications/?skip=1&lang=cy>
- 25 *Rheoli Newid i Adeiladau Rhestredig yng Nghymru*, Llywodraeth Cymru, Cadw, 2017 ¹
<http://cadw.gov.wales/historicenvironment/publications/?skip=1&lang=cy>
Rheoli Ardaloedd Cadwraeth yng Nghymru, Llywodraeth Cymru, Cadw, 2017
<http://cadw.gov.wales/historicenvironment/publications/?skip=1&lang=cy>
- 26 *Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 9)*, Pennod 6: Yr Amgylchedd Hanesyddol ¹
<http://gov.wales/topics/planning/policy/ppw/?skip=1&lang=cy>
Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol
<http://gov.wales/topics/planning/policy/tans/?skip=1&lang=cy>
- 27 *Nodyn Cyngor Technegol 12: Dylunio* ¹
<http://gov.wales/topics/planning/policy/tans/?skip=1&lang=cy>
- 28 *Comisiwn Dylunio Cymru* ¹
<http://dcfw.org/>
- 29 *Rheoliadau Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) (Cymru) 2012 fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) (Cymru) (Diwygio Rhif 2) 2017* ¹
- 30 *Deddf Cydraddoldeb 2010* ¹
<http://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2010/15/contents>
- 31 *Ceir rhagor o wybodaeth am fodloni gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010 wrth ddatblygu cynigion, gan gynnwys ar gyfer adeiladau rhestredig, yn Nodyn Cyngor Technegol 12: Dylunio.* ¹
<http://gov.wales/topics/planning/policy/tans/?skip=1&lang=cy>
- 32 *Goresgyn y Rhwystrau: Darparu Mynediad Corfforol i Adeiladau Hanesyddol*, Cadw, Welsh Historic Monuments, 2002 ¹
<http://cadw.gov.wales/historicenvironment/help-advice-and-grants/makingchanges/disabilityaccess/?skip=1&lang=cy>
- 33 *Rheoliadau Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) (Cymru) 2012 fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) (Cymru) (Diwygio Rhif 2) 2017* ¹

Rhagor o Wybodaeth ↗

Polisi a Chanllawiau Cynllunio

Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 9)

<http://gov.wales/topics/planning/policy/ppw/?skip=1&lang=cy>

Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 9), Pennod 6: Yr Amgylchedd Hanesyddol

<http://gov.wales/topics/planning/policy/ppw/?lang=cy>

Nodyn Cyngor Technegol 12: Dylunio

<http://gov.wales/topics/planning/policy/tans/tan12/?skip=1&lang=cy>

Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol

<http://gov.wales/topics/planning/policy/tans/?skip=1&lang=cy>

Datganiadau Dylunio a Mynediad yng Nghymru

<http://gov.wales/topics/planning/policy/?skip=1&lang=cy>

Llawlyfr Rheoli Datblygu

<http://gov.wales/topics/planning/policy/development-management-manual/?skip=1&lang=cy>

Canllawiau Arfer Gorau

Egyddorion Cadwraeth ar gyfer Rheoli Amgylchedd Hanesyddol Cymru mewn Ffordd Gynaliadwy, Cadw, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2011

<http://cadw.gov.wales/historicenvironment/conservation/conservationprinciples/?skip=1&lang=cy>

Canllaw Arfer Da ar Ddefnyddio'r Gofrestr o Dirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol yng Nghymru yn ystod y Broses o Gynllunio a Datblygu, (2il) argraffiad diwygiedig gan gynnwys diwygiadau i'r broses asesu (ASIDOHL2), Cadw, Llywodraeth Cynulliad Cymru a Chyngor Cefn Gwlad Cymru, 2007

<http://cadw.gov.wales/historicenvironment/protection/historiclandscapes/?skip=1&lang=cy>

Rheoli Newid ar Safleoedd Treftadaeth y Byd yng Nghymru, Llywodraeth Cymru, Cadw, 2017

<http://cadw.gov.wales/historicenvironment/publications/?skip=1&lang=cy>

Rheoli Newid i Adeiladau Rhestredig yng Nghymru, Llywodraeth Cymru, Cadw, 2017

<http://cadw.gov.wales/historicenvironment/publications/?skip=1&lang=cy>

Rheoli Newid i Barciau a Gerddi Hanesyddol Cofrestredig yng Nghymru, Llywodraeth Cymru, Cadw, 2017

<http://cadw.gov.wales/historicenvironment/publications/?skip=1&lang=cy>

Rheoli Ardaloedd Cadwraeth yng Nghymru, Llywodraeth Cymru, Cadw, 2017

<http://cadw.gov.wales/historicenvironment/publications/?skip=1&lang=cy>

Rheoli Rhestrau o Asedau Hanesyddol o Ddiddordeb Lleol Arbennig yng Nghymru, Llywodraeth Cymru, Cadw, 2017

<http://cadw.gov.wales/historicenvironment/publications/?skip=1&lang=cy>

Goresgyn y Rhwystrau: Darparu Mynediad Corfforol i Adeiladau Hanesyddol, Cadw: Welsh Historic Monuments, 2002

<http://cadw.gov.wales/historicenvironment/help-advice-and-grants/makingchanges/disabilityaccess/?skip=1&lang=cy>

Gwireddu Potensial Trafodaethau cyn Gwneud Ceisiadau Cynllunio, Canllaw Arfer Llywodraeth Cymru, Mai 2012

<http://gov.wales/topics/planning/policy/guidanceandleaflets/preappguide/?skip=1&lang=cy>

Lleoliad Asedau Hanesyddol yng Nghymru, Llywodraeth Cymru, Cadw, 2017

<http://cadw.gov.wales/historicenvironment/publications/?skip=1&lang=cy>

Canllawiau ar ddadansoddi safle a chyd-destun: Pennu gwerth safle, Llywodraeth Cymru, 2016

<http://gov.wales/topics/planning/policy/guidanceandleaflets/site-and-context-analysis-guide/?skip=1&lang=cy>

Cynnal a Chadw a Chadwraeth

Mae Cadw wedi cyhoeddi amrywiaeth o gyhoeddiadau ar ofalu am wahanol fathau o adeilad, eu gwarchod a'u haddasu. Mae'r rhain ar gael ar-lein yn:

<http://cadw.gov.wales/historicenvironment/publications/?lang=cy>

BS7913 Guide to the Conservation of Historic Buildings

<http://shop.bsigroup.com/ProductDetail/?pid=000000000030248522>

Historic England

<https://historicengland.org.uk/advice/your-home/>

Historic Environment Scotland

<https://www.englished.org/>

Sefydliad Cadwraeth Adeiladau Hanesyddol

<http://ihbconline.co.uk/caring/>

Cynnal a Chadw!

<http://cadw.gov.wales/historicenvironment/help-advice-and-grants/lookingafteryourproperty/maintenancematters/?skip=1&lang=cy>

Gwybodaeth Hanesyddol

Archifau Cymru — catalog ar-lein sy'n eich galluogi i chwilio am wybodaeth mewn mwy na 7,000 o gasgliadau o gofnodion hanesyddol a ddelir gan 21 o archifau yng Nghymru.

<https://archifau.cymru/>

Archwilio — mae'n galluogi'r cyhoedd i weld y cofnodion amgylchedd hanesyddol ar gyfer pob ardal awdurdod lleol yng Nghymru. Caiff Archwilio ei gynnal a'i ategu â rhagor o wybodaeth a gedwir gan ymddiriedolaethau archaeolegol Cymru.

<http://www.archwilio.org.uk>

Cof Cymru — cofnod ar-lein Cadw o asedau hanesyddol cenedlaethol Cymru, sy'n cynnwys adeiladau rhestredig, henebion cofrestredig, llongddrylliadau gwarchoddedig, Safleoedd Treftadaeth y Byd a thirweddau hanesyddol cofrestredig. Ychwanegir parciau a gerddi hanesyddol cofrestredig at Cof Cymru yn ystod 2018.

<http://cadw.gov.wales/historicenvironment/records/v1/cof-cymru/?skip=1&lang=cy>

Coflein — y catalog ar-lein ar gyfer Cofnod Henebion Cenedlaethol Cymru, y casgliad cenedlaethol o wybodaeth am amgylchedd hanesyddol Cymru.

<http://www.coflein.gov.uk/cy/>

Cynefin — adnodd ar-lein i chwilio mapiau degwm Cymru a'u mynegeion.

<http://cynefin.archiveswales.org.uk/cy/>

Cymru Hanesyddol — porth ar-lein i gofnodion amgylchedd hanesyddol cenedlaethol a rhanbarthol www.cymruhanesyddol.gov.uk

Rhestr o Enwau Lleoedd Hanesyddol Cymru — mae'n cofnodi'r gwahanol ffurfiau a sillafiadau a ddefnyddir ar gyfer enwau nodweddion topograffig, cymunedau, prif ffyrdd, strwythurau ac agweddau eraill ar y dirwedd a gofnodir mewn ffynonellau sy'n rhagddyddio'r Rhyfel Byd Cyntaf.

<https://enwaulleoeddhanesyddol.cbhc.gov.uk/>

Llyfrgell Genedlaethol Cymru

<https://www.llgc.org.uk/cy>

Cysylltiadau ↗

Llywodraeth Cymru

Y Gwasanaeth Amgylchedd Hanesyddol (Cadw)
Plas Carew, Uned 5/7 Cefn Coed, Parc Nantgarw, Caerdydd CF15 7QQ
Ffôn. 03000 256000
cadw@cymru.gsi.gov.uk
gov.wales/cadw

Awdurdodau Cynllunio Lleol

Gellir cysylltu â swyddogion cadwraeth, swyddogion cynllunio a chynghorwyr archaeolegol awdurdodau cynllunio lleol drwy wefan yr awdurdod lleol perthnasol.

Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru

Ffordd Penglais, Aberystwyth, SY23 3BU
Ffôn. 01970 621200
nmr.wales@rcahmw.gov.uk
www.cbhc.gov.uk

Cofnod Henebion Cenedlaethol Cymru

nmr.wales@rcahmw.gov.uk
<http://www.coflein.gov.uk/cy/>

Ymddiriedolaethau Archaeolegol Cymru

Ymddiriedolaeth Archaeolegol Clwyd-Powys
41 Stryd Lydan, Y Trallwng SY21 7RR
Ffôn. 01938 553670
trust@cpat.org.uk
http://www.cpat.org.uk/w_index.htm

Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed
The Corner House, 6 Stryd Caerfyrddin, Llandeilo SA19 6AE
Ffôn. 01558 823121
info@dyfedarchaeology.org.uk
www.dyfedarchaeology.org.uk

Ymddiriedolaeth Archaeolegol Morgannwg Gwent
Heathfield House, Heathfield, Abertawe SA1 6EL
Ffôn. 01792 655208
enquiries@ggat.org.uk
http://www.ggat.org.uk/index_cym.html

Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd
Craig Beuno, Ffordd y Garth, Bangor LL57 2RT
Ffôn. 01248 352535
gat@heneb.co.uk
www.heneb.co.uk

Comisiwn Dylunio Cymru

4ydd Llawr, Adeiladau Cambrian, Sgwâr Mount Stuart, Caerdydd CF10 5FL

Ffôn. 029 2045 1964

connect@dcfw.org

<http://dcfw.org>

Ymddiriedolaeth Gerddi Hanesyddol Cymru

The Bothy, Aberglasne, Llangathen, SA32 8QH

Ffôn. 01558 668998

admin@whgt.org.uk

www.whgt.org.uk

Dolenni o'r ddogfen hon

Lle mae'r ddogfen hon yn cynnwys dolenni i wefannau ac adnoddau eraill a ddarperir gan drydydd partiön, darperir y dolenni hyn er gwybodaeth i chi yn unig. Ni ddylid ystyried bod rhestru dolenni yn gymeradwyaeth o unrhyw fath. Nid oes gan Cadw reolaeth dros gynnwys nac argaeledd tudalennau y ceir dolenni iddynt ac nid ydym yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb amdanynt nac am unrhyw golled neu niwed a allai ddeillio o'ch defnydd ohonynt.